

## **Clarence Road – Gwella Mynediad (Ysgol Hamadryad)**

### **Disgrifiad o Gynniq y Cynllun**

Mae cyllid yn deillio o gytundeb cynllunio wedi dod ar gael o ganlyniad i ddatblygu ysgol Gymraeg newydd ar Hamadryad Road. Mae rhan o'r cyllid hwn wedi'i neilltuo ar gyfer diweddarau'r groesfan sebra ddyrchafedig bresennol ar Bont Clarence Road (ochr y gorllewin) a llinell y cwrbyn ar Clarence Embankment wrth y gyffordd â Clarence Road.

### **Mae'r cynllun yn cynnwys:**

- Darparu cyfleusterau croesi i feiciau ar y groesfan sebra ddyrchafedig bresennol ar ochr orllewinol Pont Clarence Road, a fydd yn cynnwys croesfan gyfochrog i feicwyr. Bydd hyn yn golygu y caiff y bwrdd arafu ei ledu.
- Ystyried darparu rhwystrau igam-ogamu llydan ar y ffyrdd sy'n arwain at y croesfannau uchod i arafu beicwyr wrth iddynt ddefnyddio'r cyfleusterau. Caiff y rhain eu dylunio i arafu beicwyr yn unig, nid eu gorfodi i ddod oddi ar eu beiciau a byddant yn destun gwaith arolygu/asesu ychwanegol.
- Ailalinio/ymestyn llinell y cwrbyn ar Clarence Embankment wrth y gyffordd â Clarence Road, er mwyn gwella gwelededd i gerddwyr a sicrhau pellter croesi byrrach.
- Cynigir gosod bolardiau hefyd i atal cerbydau rhag cael mynediad anghyfreithlon at dir sy'n perthyn i'r briffordd wrth ymyl y gyffordd.
- Asesu'r arwyddion, gan gynnwys arwyddion 'arwyneb a rennir', yng nghyffiniau'r ddwy groesfan sebra bresennol ar Clarence Road.

### **Cefndir:**

Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu o ganlyniad i'r pryderon a fynegwyd ynglŷn â mynediad diogel, cyfleus a chynaliadwy i'r ysgol yn ystod y broses o gynllunio'r safle ysgol arfaethedig. Bwriedir mai'r prif ddull o gael mynediad i'r ysgol fydd cerdded, neu ddulliau cynaliadwy eraill. Yn ystod y cam cais cynllunio ar gyfer yr ysgol hon, penderfynwyd na fyddai ond ychydig neu ddim cyfleusterau parcio ar gael wrth ymyl yr ysgol. Felly rhagwelir y bydd rhieni neu warcheidwaid llawer o ddisgyblion yn parcio i ffwrdd o'r safle ac yn cerdded y rhan o'r siwrnai sy'n weddill drwy'r ardal hon i'r ysgol.

Bydd hon yn ysgol mynediad cynaliadwy ac mae'r cynllun hwn yn rhan o'r mesurau ar gyfer hwyluso hyn. Fodd bynnag, prif ffocws a chyfrifoldeb yr ysgol, llywodraethwyr yr ysgol a rhieni sydd â phlant yn yr ysgol, fydd sicrhau y caiff cynllun teithio ysgol cadarn ei lunio, ei ddilyn a'i gynnal i ategu'r dull hwn.

Mae gwelliannau eraill yn cael eu llunio hefyd i helpu i sicrhau mynediad cynaliadwy i'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion megis cyflwyno cyfyngiad cyflymder 20mya yn yr ystâd dai o amgylch yr ysgol, sefydlu parth diogelwch ysgol a gwelliannau eraill yn y gymuned o ran mynediad, i'w gwneud yn haws ac yn ddiogelach i gael mynediad i'r ysgol a'r ardal sydd o'i hamgylch. Bydd y rhain yn destun ymgynghoriad ar wahân.

### **Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig**

**Lonydd Seiclo.** Mae lôn seiclo yn rhan o'r ffordd sydd wedi ei neilltuo'n benodol benodol ar gyfer seiclwyr a gall fod yn lôn orfodol neu gynghorol. Er mwyn galluogi defnydd cyffyrddus gan seiclwyr, gan gynnwys y beiciau sydd ag ôl-gerbydau a beiciau/threisiolau a ddefnyddir gan bobl anabl, dylai lonydd seiclo fod yn 1.5m o led fel rheol ac fe'u dynodir gan arwyneb coch yn gyffredinol.

- Mae lonydd seiclo gorfodol yn diffinio darn o ffordd sydd wedi ei neilltuo ar gyfer seiclwyr yn unig, ac ni all cerbydau eraill ei defnyddio.
- Prif bwrpas lonydd seiclo cynghorol yw rhybuddio modurwyr o bresenoldeb posibl seiclwyr, ac annog modurwyr i gadw peth pellter oddi wrth y palmant. Fodd bynnag, caiff cerbydau modur ddefnyddio'r lonydd hyn.

**Nodweddion Arafu Traffig.** Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

**Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.** Cyfyngiadau yw'r rhain, a osodir ar y Briffordd, sy'n cyfarwyddo, rheoli neu wahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft, cyfyngiadau cyflymder 20 mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Traffig Unffordd. Dim Aros. Rhaid i'r rheoliadau hyn fynd trwy broses gyfreithiol hir. Os cânt eu cymeradwyo, gosodir arwyddion neu linellau ar y safle a bydd yr Heddlu neu eu Wardeniaid Traffig yn eu gorfodi.

**Bwrdd Arafu.** Amrywiaeth yw hwn ar y twmpath arafu lle mae pen uchaf y rhan ddyrchafedig (y bwrdd) dros ddwy fetr o led. Mae hyn yn achosi llai o anesmwythdra i deithwyr bws gan fod yr ardaloedd codi a disgyn wedi eu gwahanu gan y darn dyrchafedig. Defnyddir y rhain weithiau ar y cyd â chroesfannau cerddwyr er mwyn lleihau cyflymder a gwneud y groesfan yn fwy gweladwy i yrwyr.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolig o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros groesfan pâl. Gall wasanaethu cerddwyr yn well, gan nad oes amser aros penodedig cyn cael yr hawl i groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â rhwystrau ymwithiol sy'n gwella gwelededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Cyrbau Gostyngedig. Hon yw'r groesfan cerddwyr symlaf oll, lle gostyngir y lefel rhwng y palmant a'r ffordd gymaint â phosibl er mwyn cynorthwyo defnyddwyr cadair olwyn, pramiau a defnyddwyr eraill sydd ag anawsterau symud. Gosodir pafin botymog arnynt i rybuddio defnyddwyr â nam ar eu golwg nad oes cwrb yn gwahanu'r llwybr cerdded oddi wrth y ffordd.

Croesfan Sebra â Bwrdd. Croesfan sebra sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar gyffordd fwrdd, yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.

Croesfan Sebra Baralel. Mae hwn yn fath newydd o groesfan, yn debyg i groesfan sebra, a fydd yn caniatáu croesfannau paralel i gerddwyr a beicwyr. Mae'r groesfan hon yn debyg o ran edrychiad i groesfan sebra ond gyda llwybr paralel i feicwyr o fewn yr ardal a reolir o'r groesfan. Rhaid i yrwyr roi'r ffordd i feicwyr a cherddwyr wrth y groesfan.\_

Rhwystrau Ymwithiol. Darn o lwybr troed sydd wedi ei ledu. Gellir eu defnyddio mewn sawl gwahanol sefyllfa, e.e. wrth ail-lunio cyffyrdd, diffinio ardaloedd parcio neu leihau'r pellter sydd i gerddwyr groesi'r ffordd. Gallant wella gwelededd i ac o gerddwyr neu yrwyr sy'n aros wrth gyffordd.

Rhwystrau Ymwithiol wrth Gyffordd. Y defnydd o rwystrau ymwithiol wrth gyffordd. Yn y lleoliadau hyn maen nhw'n rhwystro cerbydau rhag cael eu parcio'n rhy agos at gyffordd, gan wella gwelededd, a gallant hefyd gynnig parcio gwarchoddedig.

Rhwysr igam-ogamu. Rhan o fesur arafu traffig lle mae rhwystrau ymwithiol yn culhau'r ffordd fel mai ond un cerbyd ar y tro all deithio trwyddo, ac y mae'n rhaid i gerbydau ddilyn llwybr siâp 'S' er mwyn gwneud hynny. Ym mhob cynllun rhwystr igam-ogamu newydd, rhoddir blaenoriaeth i un cyfeiriad. Maen nhw'n addas yn unig pan fo llai na 10 cerbyd yr awr yn ystod yr awr frig.

Bolard. Postyn a wneir o amryw ddeunyddiau ac a ddefnyddir i rwystro cerbydau rhag gyrru ar y llwybr troed neu ymyl y ffordd.

Llwybr a Rennir Mae'r llwybr troed hwn wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr. I sicrhau bod pob cerddwr a beiciwr yn gallu ei ddefnyddio heb drafferth, bydd y llwybrau hyn fel arfer yn dri metr o led a chânt eu nodi gan arwyddion a marciau ffordd. Mewn rhai sefyllfaoedd bydd y llwybr yn cael eu rhannu gyda cherddwyr ar un ochr a beicwyr ar yr ochr arall, ond mae angen

Ilwybr lletach ar gyfer hyn a gall achosi problemau os nad yw'r defnyddwyr yn sylwi pa ochr y dylent ddefnyddio. Mae'r Ilwybr lletach o ddefnydd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd a chadeiriau gwthio. Mae hefyd o fudd i feicwyr, yn enwedig y rhai sydd angen defnyddio beiciau tair olwyn neu ôl-gerbydau oherwydd oed neu anabledd ac i'r rheiny sy'n ifanc iawn neu sy'n feicwyr dibrofiad.

Lleoedd Croesi i Gerbydau Mae lle croesi i gerbydau yn eich galluogi i gael mynediad at eich eiddo mewn modd cyfreithiol, diogel a hawdd pan ydych yn defnyddio car neu gerbyd domestig arall. Mae hyn yn golygu bod cyrbau'n cael eu gostwng ("cwrbyn isel") i lefel y lôn gerbydau a bod y droedffordd, neu lain myyl, yn cael ei chryfhau i ddal pwysau'r cerbydau sy'n ei chroesi. Mae'n drosedd i yrru ar droedffordd oni bai bod lle croesi i gerbydau wedi'i awdurdodi a'i osod. Yn ogystal â rhesymau diogelwch, gallech ddifrodi'r droedffordd neu unrhyw bibellau neu geblau sydd wedi'u claddu o dan y droedffordd. Mae'r lle croesi yn eich galluogi i basio'n ddiogel o'r lôn gerbydau, gan beidio â rhwystro'r briffordd.



Fel rhan o'n cynlluniau gwella, mae'n bosibl darparu lle croesi newydd i gerbydau, yn amodol ar y telerau ac amodau angenrheidiol. Ond, rhaid i'r rheiny sy'n ceisio lle croesi i gerbydau gael Cytundeb Priffordd gennym o flaen llaw. Yn dibynnu ar sut y mae'r ffordd wedi'i Dosbarthu, efallai y bydd yn angenrheidiol cael Caniatâd Cynllunio hefyd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk](http://www.caerdydd.gov.uk)

Parth Diogelwch Ysgol: Bydd gan barth diogelwch ysgol fel rheol "borth" i'r parth ar ffurf ffordd ddwyffordd yn culhau ac arwyddion rhybudd ysgol a bydd yn cynnwys dulliau arafu traffig a chroesfan i gerddwyr ynghyd a chyfyngiadau a rheolaeth barcio. Y bwriad yw lleihau cyflymder traffig yng nghyffiniau gatiâu'r ysgol, i gynyddu ymwybyddiaeth gyrrwyr eu bod yn dynesu at ysgol ac i ddarparu adnoddau mwy diogel a chyfleus i gerddwyr (yn enwedig disgyblion ysgol) o fewn y parth. Bydd yr union nodweddion gaiff eu cynnwys mewn parth diogelwch ysgol yn ddibynnol ar ffactorau fel gosodiad y safle, nifer y mynedfeydd i'r ysgol, maint a chyflymder y traffig.

# Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.



Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch [Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 029 2087 3298 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **23/03/2018**.



**The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.**

Further details about this consultation are available at [cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail [TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) or telephone 029 2087 3298 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **23/03/2018**.